

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, United Dental
Merthyr**

4 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Camau Nesaf	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn United Dental, Merthyr Tudful, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 4 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.¹

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839>

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae United Dental Merthyr yn darparu gwasanaethau i gleifion yn nhref Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, un therapydd a chwe nyrs ddeintyddol (gydag un ohonynt yn nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant/derbynnydd ac un arall yn nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant). Mae rheolwr cyffredinol yn y practis hefyd, ac mae hi'n rhannu ei hamser bob wythnos rhwng y practis hwn a gwasanaethau eraill United Dental yng ngorllewin Morgannwg.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

Mae AGIC yn deall bod United Dental Merthyr yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae United Dental Merthyr yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Nododd y cleifion y siaradwyd â nhw a'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth mae'r tîm deintyddol yn ei ddarparu. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oediad sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd.

Roeddem o'r farn bod y cyfleusterau clinigol yn y practis o safon uchel. Roedd trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac atal croes-heintio.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y sampl o 15 o gofnodion cleifion yn fanwl a'u bod yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen gwella cynnwys a chysondeb y cofnodion yn ymwneud ag ymgynghoriadau cleifion.

Mae'r ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan reolwr cyffredinol profiadol, gyda chymorth cyfarwyddwr clinigol a thîm eiddgar a brwdfrydig. Roedd y practis wedi sefydlu systemau rheoli a phrosesau priodol i sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd y practis deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gan ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Gwelsom hefyd fod y safle'n lân ac yn hylan drwyddo draw.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Nododd y cleifion y siaradwyd â nhw, a'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron, eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth mae'r tîm deintyddol yn ei ddarparu. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oediad sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd.

Roedd y tîm deintyddol yn broffesiynol, cyfeillgar a chroesawgar, a gwelsom ni nhw'n bod yn gwrtais a hynaws gyda chleifion drwy gydol ein harolygiad.

Cawsom gyfle i siarad â nifer o gleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod ein hymweliad. Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir.

Cyn ein hymweliad arolygu, rhoddwyd holiaduron AGIC i'r practis eu dosbarthu ymysg cleifion fel ffordd o gael eu safbwyntiau a'u profiadau o'r gwasanaethau a ddarperir. Dychwelwyd 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nododd un claf bod cryn ddryswch wedi bod ynglŷn â'r system dalu ar gyfer deintyddiaeth y GIG; awgrymodd claf arall y byddai'n ddefnyddiol cael peiriant diodydd neu gyfarpar oeri dŵr yn y practis deintyddol.

Nododd pob claf arall a roddodd sylwadau (trwy sgysiau ar ddiwrnod yr arolygiad a thrwy holiaduron a gwblhawyd) eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i gael gan y practis, a'u bod yn cael croeso gan y staff.

Gofynnwyd hefyd i'r cleifion (ar lafar ac o fewn yr holiaduron) nodi sylwadau ynglŷn â pha un a oeddent yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ai peidio.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

“Dydw i byth yn siŵr os yw tynnu cen a sgleinio yn cael ei gynnwys yn ystod archwiliad, neu os yw'n driniaeth ar wahân, ac os yw'n driniaeth, ai'r deintydd ynteu'r hylenydd deintyddol sy'n ei ddarparu.”

“Mae'r triniaethau'n dda iawn yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir.”

Yn ystod trafodaethau â'r rheolwr cyffredinol a'r cyfarwyddwr clinigol, gwelwyd bod cleifion yn cael eu hannog i fynegi unrhyw broblemau i'r tîm deintyddol yn ystod eu hymweliadau, fel bod staff yn gallu ceisio mynd i'r afael â nhw yn y fan a'r lle.

Dywedodd staff wrthym nad oedd unrhyw ddull ffurfiol i'r cleifion roi adborth i'r practis trwy systemau megis blwch awgrymiadau, llyfr sylwadau neu arolygon cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sut i dderbyn a defnyddio adborth cleifion fel ffordd o ganfod pa wasanaethau sydd eu hangen ac er mwyn gwella'u hansawdd.

Pan ofynnwyd sut roedd gwneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod naill ai'n gwybod sut i fynegi unrhyw gwyn fyddai ganddynt, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Nododd pump o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol maent yn eu cael. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar yr oedd pob un o'r pum claf wedi dechrau mynychu'r practis am ofal a thriniaeth. Gwelsom fod poster cwynion wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa/ystafell aros. Fodd bynnag, nid oedd poster y GIG yn cynnwys manylion yr amserlenni cywir ar gyfer cydnabod cwynion cleifion. Roedd y print ar y poster hefyd yn fân, a oedd yn golygu efallai y byddai rhai cleifion yn cael trafferth i'w ddarllen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion y GIG yn cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut i wneud cwyn mewn fformat sy'n hawdd ei ddarllen.

Edrychwyd yn fanwl ar y polisi cwyno (pryderon). O ganlyniad, gwelsom nad oedd y polisi'n nodi amserlenni cywir y GIG ar gyfer trafod cwynion. Fodd bynnag, gwelsom fod y polisi yn hysbysu cleifion am eu hawl i gael cymorth gyda'u cwynion neu eu pryderon gan y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol, a'u hawl i uwchgyfeirio cwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen "Gweithio i Wella" y GIG.

Roeddem yn gallu cadarnhau y darperir gwybodaeth ynghylch gwneud cwyn ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, sy'n cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel sy'n ofynnol. Roedd yr amserlenni ar gyfer cydnabod a datrys cwynion o'r fath hefyd yn gywir.

Roedd system apwyntiadau hyblyg wedi'i sefydlu, a gwelsom fod cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau o flaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn

yn golygu y gallai pobl fod yn hyderus bod system ar gael i geisio sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu gweld yn gyflym pan fyddant yn profi poen ddeintyddol.

Ar y cyfan, nododd cleifion y siaradwyd â nhw, a'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC, nad oeddent wedi profi unrhyw oediad pan oeddent yn aros i gael eu gweld. Disgrifiodd y staff broses a oedd ar waith i hysbysu cleifion am unrhyw oediad ar yr achlysuron prin pan fyddai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Ymhlith y sylwadau eraill a ddarparwyd o fewn yr holiaduron a gwblhawyd oedd:

"Bob amser yn fodlon [ar y gwasanaeth]."

"Bodlon iawn. Gwaith da."

Gwelsom fod y practis yn arddangos posteri a thafleini mewn lle amlwg, ac roedd y rhain yn darparu cyngor i gleifion ynglŷn ag apwyntiadau deintyddol yn ogystal â manylion gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn y GIG pe byddai angen.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Roeddem o'r farn bod y cyfleusterau clinigol yn y practis o safon uchel. Roedd trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac atal croes-heintio.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y sampl o 15 o gofnodion cleifion yn fanwl, a'u bod yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen gwella cynnwys a chysondeb y cofnodion yn ymwneud ag ymgynghoriadau cleifion.

Gwelsom fod trefniadau ar gael ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd tystysgrifau ar gael yn ymwneud ag archwiliadau cynnal a chadw ar gyfer y rhan fwyaf o'r offer pelydr-X, ac eithrio un peiriant a oedd newydd gael gwasanaeth cyn ein harolygiad. Fodd bynnag, sicrhawyd bod copi o'r dystysgrif cynnal a chadw ar gael i AGIC yn dilyn ein hymweliad. Roedd cofnodion hyfforddiant staff ar gael yn ymwneud â defnyddio offer pelydr-X. Roedd ansawdd delweddau pelydrau-X hefyd wedi bod yn destun archwiliad rheolaidd a thrylwyr yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd barhaus.

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag amrywiaeth o achosion brys cleifion. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael i'r staff yn y practis pe byddai argyfwng o ran cleifion (llewygu). Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel. Fodd bynnag, o archwilio cynnwys y pecyn cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys, gwelsom fod nifer o eitemau wedi mynd heibio eu dyddiadau terfyn ac nad oedd unrhyw gyffuriau eraill ar gael yn y safle. Yn ogystal, gwelsom fod y dyddiadau a nodwyd ar y tu allan i becynnau offer llwybr anadlu² wedi dod i ben hefyd.

Tynnwyd sylw'r cyfarwyddwr clinigol a'r rheolwr cyffredinol at y materion a nodir uchod yn syth, gan fod hynny'n golygu nad oedd cyffuriau nac offer priodol ar gael yn y practis pe byddai argyfwng. Rhoddwyd cyffuriau ac offer llwybr anadlu yn lle'r rhai oedd wedi dod i ben yn ystod ein hymweliad. Roedd y practis hefyd yn barod i dderbyn ein sylwadau o ran gwella'r system a weithredir ar gyfer archwilio offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.

² Dyfais feddygol yw llwybr anadlu a ddefnyddir i gynorthwyo cleifion i anadlu yn ystod cyfnodau anymwybodol.

Cyn diwedd ein hymweliad, darparwyd fformat diwygiedig, mwy addas ar ein cyfer ar gyfer archwilio'r holl gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys bob wythnos, yn unol â chanllawiau presennol Cyngor Dadebru'r DU. Byddai'r rhestr wirio ddiwygiedig hefyd yn elwa ar nodi'r dyddiad rhoi gwasanaeth, dyddiad prawf a'r dyddiad terfyn ar y silindr ocsigen. Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR). Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod aelod o staff bob amser ar gael yn y practis sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Roedd dogfennaeth gontract wedi'i sefydlu ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd gwastraff tebyg o'r practis yn cael ei storio'n ddiogel cyn cael ei gasglu. Edrychwyd hefyd ar y polisi a oedd yn ymwneud â thrafod a rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH), a gwelwyd ei fod yn cyfeirio at wasanaeth iechyd yn Lloegr. Trafodwyd hyn â'r rheolwr cyffredinol, a chytunodd i sicrhau bod y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiwygio yn dilyn yr arolygiad i adlewyrchu'r trefniadau lleol gofynnol o fewn y practis.

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) offer a ddefnyddir yn y practis, ac ar gyfer cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05).³

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân ar gael yn y practis, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd rota ar gael yn y practis hefyd ar gyfer dethol aelod o staff i weithio yn yr ystafell ddadheintio bob dydd. Yn ystod sgwrs â'r nyrs ddeintyddol oedd yn gweithio yn y man hwnnw ar ddiwrnod yr arolygiad, daeth yn amlwg bod prosesau sydd wedi'u hen sefydlu ar gael yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer. Roedd cofnodion yn ategu hyn, ac roeddent yn cadarnhau bod yr archwiliadau dyddiol wedi'u cynnal ar yr offer. Roedd y cyfarpar oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offerynnau yn amlwg mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr offerynnau yn cael eu rhoi mewn pecynnau priodol ar ôl eu sterileiddio. Fodd bynnag, nid oedd dyddiad terfyn wedi'i nodi ar bob pecyn er mwyn cynorthwyo'r staff, cyn i'r offerynnau gael eu cadw. Roedd hyn yn golygu y gallai offerynnau gael eu defnyddio y tu allan i'r cyfnod blwyddyn a argymhellir gan Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. O drafod â'r tîm deintyddol, gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r offerynnau yn y practis yn cael eu defnyddio o

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

fewn cyfnod o bedair wythnos. Er hynny, cytunodd y tîm i sicrhau bod y dyddiad terfyn cywir yn cael ei nodi ar bob offeryn sydd wedi'i sterileiddio yn y dyfodol.

Rhoddwyd copi o archwiliad rheoli heintiau i ni a gwblhawyd ym mis Chwefror 2015 gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn galluogi'r tîm deintyddol i asesu eu practis drostynt eu hunain yn erbyn y canllawiau, a datblygu cynllun gwella yn rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol.

Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu untro ar gael yn y practis er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Cynghorwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i osod arwydd uwchben pob sinc golchi dwylo penodol yn yr ystafelloedd triniaeth fel bod pob aelod o'r staff yn glir o ran ei bwrpas.

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis. Roeddem o'r farn eu bod o safon uchel a'u bod yn cynnwys cyfarpar perthnasol ar gyfer sicrhau bod y cleifion a'r staff yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai deunyddiau deintyddol mewn dwy o'r tair ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf wedi mynd heibio'r dyddiad terfyn. Tynnwyd sylw'r uwch staff at hyn, a gwnaethant gytuno i ystyried cyflwyno rhestr o ddeunyddiau deintyddol (gan gynnwys anesthetig lleol a nodwyddau). Byddai system debyg yn cynorthwyo staff i archwilio stoc yn yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio bob mis.

Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y sampl o 15 o gofnodion cleifion yn fanwl a'u bod yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch. Gwelsom fod canlyniadau ymgynghoriadau cleifion yn cael eu cofnodi trwy ddefnyddio 'templedi electronig'. Er bod templedi o'r fath yn dderbyniol ac yn atgoffa ymarferwyr deintyddol yn briodol i gofnodi gofal a thriniaeth cleifion, roedd angen teilwra'r nodiadau ysgrifenedig at anghenion unigol cleifion er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Roeddem hefyd o'r farn y gellid gwella cysondeb y cofnodion yn ymwneud ag agweddau ar ymgynghoriadau cleifion. Yn benodol, cynghorwyd y practis i sicrhau bod trafodaethau ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu a hanes meddygol diweddaraf bob amser yn cael eu dogfennu'n llawn. Yn ogystal, dywedwyd bod angen i'r practis wella'r cofnodion o ran trafodaethau'n ymwneud â chydsyniad cleifion i driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis deintyddol wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei redeg gan reolwr cyffredinol profiadol, gyda chymorth cyfarwyddwr clinigol a tîm eiddgar a brwdfrydig. Roedd y practis wedi sefydlu systemau rheoli a phrosesau priodol i sicrhau diogelwch cleifion.

Mae United Dental Merthyr yn bractis deintyddol sydd wedi'i hen sefydlu. Cafodd y practis ei olynu gan y perchennog blaenorol yn 2011 a'i brynu gan United Dental, sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn endid corfforaethol, ym mis Ionawr 2013. Mae United Dental yn gweithredu pum practis deintyddol yng Nghymru, ac mae pedwar ohonynt wedi'u lleoli o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae prif swyddfa'r cwmni wedi'i lleoli yng Nghastell-nedd.

Roedd rheolwr cyffredinol profiadol yn rheolwr ar United Dental Merthyr, gyda chymorth tîm a chyfarwyddwr clinigol eiddgar a brwdfrydig. Dywedodd y rheolwr cyffredinol a'r cyfarwyddwr clinigol wrthym eu bod yn rhannu eu hamser rhwng y practis ym Merthyr a'r brif swyddfa. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith, a bod y tîm rheoli yn rhoi cyngor ac yn cynnal ymweliadau ychwanegol â'r safle pan fo angen hynny.

Yn ystod trafodaethau â'r deintyddion ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol, gwelwyd eu bod yn cymryd rhan weithredol wrth redeg a rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd ystod o systemau a phrosesau rheoli wedi'u sefydlu i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i gleifion. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth o archwiliad (hunanasesiad) sicrhau ansawdd a gwblhawyd yn ddiweddar ac a oedd yn cynnwys pob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaeth i gleifion. Gwelsom hefyd dystiolaeth o ddau archwiliad arall yn ymwneud ag ansawdd cofnodion cleifion a rhagnodi gwrthfotigau i gleifion. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn hyderus eu bod yn ddiogel oherwydd bod y busnes yn cael ei redeg yn dda, a bod gofal a sylw dyledus yn cael ei roi i safonau gofal iechyd a rheoliadau.

O drafod â'r rheolwr cyffredinol, gwelwyd bod lefelau trosiant a salwch/absenoldebau staff yn isel iawn. Yn ogystal, nid yw'r practis erioed wedi defnyddio nyrsys asiantaeth, oherwydd bod ganddynt eu trefniadau nyrs banc mewnol eu hunain. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol sy'n gyfarwydd iddynt.

Gwelsom fod rhaglen hyfforddi briodol wedi'i sefydlu ar gyfer sicrhau bod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu effeithiol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff a hyfforddwyd yn iawn.

Dyweddodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn fodlon ar eu swyddogaethau yn y practis deintyddol, a bod yr holl dîm yn cydweithio'n dda. Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff bob tri mis ac y darperir nodiadau ar eu cyfer a gofnodwyd yn ystod cyfarfodydd diweddar. Roedd y nodiadau'n dangos bod amrywiaeth o bynciau perthnasol wedi'u trafod. Roeddent yn cynnwys rheoli'r gwastraff clinigol mae'r practis yn ei gynhyrchu a defnyddio cyfarpar diogelu personol. Cadarnhawyd yn ystod sgrysiâu â'r staff y trafodir unrhyw bryderon sydd angen sylw yn ymwneud â darparu gofal a thriniaeth i gleifion yn anffurfiol bob wythnos, ac y gwneir gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn unol â hynny.

Edrychwyd ar bedair ffeil datblygiad proffesiynol parhaus, a gwelwyd bod pob aelod o'r staff dan sylw wedi derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith, a oedd yn cynorthwyo'r broses o nodi amcanion ac anghenion hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. O drafod â'r staff, gwelwyd hefyd bod dilyn hyfforddiant yn cael ei annog yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau perthnasol ac sydd wedi diweddarau eu hyfforddiant.

Dyweddwyd wrthym y byddai pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant yn ystod 2015; mae dyddiadau wedi'u trefnu i'r diben hwn. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan y tîm deintyddol ynglŷn â diogelu oedolion neu blant yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Gwelwyd tystiolaeth o roi brechiadau hepatitis B a chofnodion imiwneidd yn y ffeiliau staff. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod cymorth a chynghor ar gael i'r tîm deintyddol gan adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o ran cael y brechiadau yr oedd eu hangen arnynt i weithio yn y practis.

Roedd y ddeintyddfa'n cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu anafiadau i staff a chleifion mewn llyfr damweiniau, ac roedd y fformat a'r cynnwys yn cyd-fynd â Deddf Diogelu Data 1988. Gwelsom hefyd eu bod wedi cymryd camau gweithredu priodol ym mhob achos.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Felly, roeddem yn gallu cadarnhau bod trefniadau addas wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei archwilio yn unol â'r gofynion rheoliadol, fel bod cleifion yn gallu cael eu trin yn ddiogel.

Roedd tystysgrifau AGIC yn ymwneud â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis, wedi'u harddangos ym mhob un o'r pedair ystafell driniaeth. Roedd y wybodaeth yn gywir ym mhob achos.

Gwelsom fod y poster Iechyd a Diogelwch a arddangoswyd yn cynnwys manylion cyswllt priodol fel sy'n ofynnol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd y practis deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gan ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Gwelsom hefyd fod y safle'n lân ac yn hylan drwyddo draw.

Mae United Dental Merthyr yn darparu gwasanaethau o safle masnachol sydd wedi'i addasu ac sydd ar y brif stryd yn nhref Merthyr Tudful. Roedd enwau a chymwysterau dau o'r pedwar deintydd sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ar arwydd y tu allan i'r adeilad. Mae'r dderbynfa ar y llawr daear.

Gwelsom fod y brif fynedfa a'r drws i un o'r ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear yn galluogi cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i fynd i'r adeilad a derbyn triniaeth mewn modd diogel.

Nid oedd lleoedd parcio penodol ar gael yn safle'r practis, ond roedd lleoedd parcio ar gael naill ai mewn lle parcio penodol i bobl anabl neu mewn maes parcio talu ac arddangos gerllaw.

Cadarnhaodd taith o amgylch yr adeilad fod y ddeintyddfa'n lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda iawn, a bod golau, gwres ac awyru addas. Roedd yr adeilad yn cynnwys chwe ystafell driniaeth i gleifion, gyda dwy ohonynt ar y llawr daear.

Roedd yr ystafell aros ar y llawr cyntaf yn agored, gyda dodrefn cyfforddus, ac o faint addas i nifer yr ystafelloedd triniaeth yn y man hwnnw. Roedd y man aros ar y llawr daear mewn coridor yn agos i'r ddwy ystafell driniaeth yn y rhan hwnnw o'r adeilad.

Cadarnhawyd yn ystod sgwrs â'r rheolwr cyffredinol bod yr ystafell gyfarfod yn y practis yn cael ei defnyddio i gynnal sgwrsiau cyfrinachol â chleifion pan fo angen hynny.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr oedd wedi'i harddangos yn y practis deintyddol yn gyfredol a dilys.

Roedd tri thoiled ar y llawr daear yn y practis, gydag arwyddion yn nodi'r lleoliad yn glir, ac roedd un ohonynt wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd toiled arall ar gael i'r staff ar y llawr daear. Roedd yr holl gyfleusterau'n lân ac yn hylan, gydag offer golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Fodd bynnag, gallai rhai cleifion brofi peth anhawster wrth

geisio cael llinieiau dwylo untro o'r peiriant cyflenwi oherwydd bod ochrau metel ar ei waelod.

Gwelsom fod man newid/ystafell orffwyso a chegin ar gael i'r staff.

Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân, a chafodd y diffoddwyr tân ar y ddau lawr eu harchwilio'n ddiweddar. Gwelsom hefyd fod gan y practis gontract offer tân dilys, ac roedd goleuadau argyfwng ar gael.

Roedd larwm diogelwch ar yr adeilad er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

6. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion a Chyflenwi Safonau gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn United Dental Merthyr yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: United Dental Merthyr

Dyddiad yr Arolygiad: 4 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Dylai'r practis ystyried sut i nodi a defnyddio adborth cleifion fel ffordd o ganfod pa wasanaethau sydd eu hangen ac er mwyn gwella'u hansawdd. Safon GIG 5a-5c.			
Tudalen 7	Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion y GIG yn cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut i wneud cwyn mewn fformat sy'n hawdd ei ddarllen. Safon GIG 18b.			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 7	Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen "Gweithio i Wella" y GIG a Safon GIG 23.			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
Tudalen 11	Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol. Safonau GIG 7a, 8b, 9a a 9b.			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: